Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
—
Welsh Parliament
**Public Accounts Committee**

Tracey Burke

Cyfarwyddwr Cyffredinol – y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru

---

11 Awst 2020

Annwyl Tracey

**Ymchwiliad i COVID-19: Effaith ar Wasanaethau Addysg**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 3 Awst, ac am eich llythyr ar 14 Gorffennaf. Trafodwyd nifer o faterion, ac yn ystod y cyfarfod gwnaethoch gytuno i roi'r wybodaeth a ganlyn i'r Pwyllgor:

- Y ffigurau diweddaraf, yn ôl awdurdod lleol, ar ddefnydd o'r cyllid ychwanegol sydd ar gael fel rhan o'r rhaglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu', (i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu yn ddigidol yn ystod y pandemig) i sicrhau bod safleoedd teithwyr â chysylltiad band-eang.

- Manylion pa awdurdodau lleol oedd â safleoedd teithwyr parhaol heb unrhyw gysylltiadau band-eang, a pha gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn blaenoriaethu cysylltiad band-eang ar gyfer y safleoedd hyn.

Yn ystod ein trafodaethau ar y dystiolaeth a gafwyd, cododd yr Aelodau nifer o ymholiadau pellach fel y gwelir isod.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu mai dim ond ym mis Awst y cyhoeddwyd y canllawiau ar gyfer ailddechrau addysg amser llawn ym mis Medi, a oedd yn ychwanegol at ganllawiau a nodwyd ym mis Gorffennaf. Rydym yn pryderu na fydd gan staff addysgu amser i ystyried a gweithredu'r canllawiau ychwanegol, yn enwedig yn ystod cyfnod o amser sydd i fod yn amser gwarchodedig iddynt gymryd gwyliau blynyddol. Sut mae Llywodraeth Cymru yn

cefnogi ysgolion i fodloni'r gofynion a nodir yn y canllawiau ychwanegol gan gofio pa mor gyflym y bydd angen gweithredu'r canllawiau hyn?

Rydym hefyd yn pryderu nad yw'r un o'r canllawiau a gyhoeddwyd hyd yma yn cynnwys datganiad clir ar beth yn union y mae 'pellter cymdeithasol' yn ei olygu yn amgylchedd yr ysgol. Mae hyn yn arbennig o ddryslyd o ystyried y penderfyniad diweddar (a ddaeth i rym ar 3 Awst) gan Lywodraeth Cymru nad oes rhaid i blant o dan 11 oed gadw pellter cymdeithasol mwyach. Roedd y canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf yn nodi nifer o fesurau i ysgolion leihau cyswllt, er enghraifft, amseroedd egwyl gwasgaredig a gwahardd cynulliadau disgyblion mawr fel gwasanaethau ysgolion. Nid yw'n glir a yw'r rhain yn dal yn berthnasol mewn ysgolion cynradd.

Ymddengys hefyd fod diffyg eglurder a chysondeb o ran darparu prydau ysgol ym mis Medi, a fydd prydau poeth yn cael eu darparu ai peidio, a pha ddewisiadau amgen a allai fod ar gael. Roedd hefyd yn aneglur a fydd pob clwb brecwast ysgol a chlwb ar ôl ysgol yn gallu ailagor.

A fydd Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw ganllawiau pellach ar weithrediad ysgolion yn yr hydref, gan egluro'r materion a godwyd uchod?

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth gyda chi ar 22 Mehefin, gwnaethom nodi bod profiadau disgyblion yn ystod y cyfnod clo wedi bod yn eithaf amrywiol, a chawsom wybod y gofynnwyd i Estyn werthuso arferion da. Wrth godi hyn gyda chi ar 3 Awst, roeddem yn siomedig o glywed mai ar fin dechrau'r gwaith yma oedd Estyn, ac mae'n ymddangos bod hyn yn rhy hwyr. Rydym yn pryderu, yn yr hinsawdd sydd ohoni, y bydd angen i ysgolion nad ydynt yn perfformio'n dda fod wedi cael eu hasesu a gwneud gwelliannau yn fwy amserol er mwyn sicrhau cyn lleied o berygl â phosibl i ddisgyblion.

Er ichi nodi bod cryn arfer da wedi'i baratoi a'i rannu trwy ddulliau eraill, mae'n dal i fod yn her annog ysgolion i ddilyn yr arfer hwnnw. A allwch roi sicrwydd inni y rhoddir sylw i ysgolion sy'n tanberfformio?

Yn olaf, gwnaethom ofyn am gyfran y lleoliadau gofal plant a oedd yn mynd i allu ailagor, a diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud o ran ystyried cynnig pecyn cymorth i leoliadau gofal plant nad ydynt wedi bod yn gymwys i gael cymorth yn flaenorol.

Clywsom fod ychydig llai na 1,000 o leoliadau gofal plant yn dal i fod ar gau, sef ychydig o dan draean y sector yng Nghymru, ond rydym yn cydnabod bod nifer o'r rhain yn rhai na fyddent yn gweithredu yn ystod yr haf beth bynnag. Gan gydnabod y bydd y ffigurau hyn yn wahanol ym mis Medi, beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i asesu'r

gofyniad i'r rhain fod yn weithredol eto erbyn mis Medi gan fod rhieni angen sicrwydd y bydd gofal plant ar gael.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.